



| | | | | | | | | |
|----------|--|---|----------|--|----|------------|--|-----------|
| 1 | Ffrâm gyfeirio | | 2 | Unedau a chynnwys dangosol | | 2.2 | Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Celf a Dylunio | 29 |
| 1.1 | Diffiniadau a nodweddion | 3 | 2.1 | Lefel 3 Diploma mewn Celf a Dylunio | 9 | Uned 10 | Nodweddion a chyd-destunau mewn celf a dylunio | 30 |
| 1.2 | Y Diploma yng nghyd-destun y Diploma Estynedig | 3 | Uned 1 | Cyflwyniad i iaith weledol mewn celf a dylunio | 10 | Uned 11 | Paratoi ar gyfer datblygu ym maes celf a dylunio | 32 |
| | | | Uned 2 | Cyflwyniad i sgiliau ymchwil mewn celf a dylunio | 12 | Uned 12 | Cysylltu â chynulleidfa mewn celf a dylunio | 34 |
| 1.3 | Nodau | 3 | Uned 3 | Cyflwyniad i ymwybyddiaeth feirniadol a chyd-destunol mewn celf a dylunio | 14 | Uned 13 | Cynnig a gwireddu prosiect mewn celf a dylunio (Lefel 3) | 36 |
| 1.4 | Derbyniadau | 3 | Uned 4 | Cyflwyniad i ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol mewn celf a dylunio | 16 | Uned 14 | Cynnig a gwireddu prosiect mewn celf a dylunio (Lefel 4) | 40 |
| 1.5 | Strwythur y cymhwyster | 4 | Uned 5 | Dull integredig ar gyfer datrys problemau 2D mewn celf a dylunio | 18 | 3 | Arweiniad i fyfyrwyr | 44 |
| 1.6 | Sylwadau ar strwythur y cymhwyster | 5 | Uned 6 | Dull integredig ar gyfer datrys problemau 3D mewn celf a dylunio | 20 | 4 | Meini prawf graddio | 48 |
| 1.7 | Ymsefydlu | 6 | Uned 7 | Dull integredig ar gyfer datrys problemau seiliedig ar amser | 22 | 5 | Enghreifftio graddau | 54 |
| 1.8 | Cynllunio'r rhaglen | 7 | Uned 8 | Datblygu prosiect celf a dylunio | 24 | | | |
| 1.9 | Datblygiad personol a phroffesiynol | 8 | Uned 9 | Cyfleoedd i ddatblygu ym maes celf a dylunio | 26 | | | |
| 1.10 | Asesu | 8 | | | | | | |
| 1.11 | Achredu a chyllido | 8 | | | | | | |
| 1.12 | Tariff UCAS ar gyfer 2016/17 a'r tu hwnt | 8 | | | | | | |

1.1 Diffiniadau nodweddion

Mae Lefel 3 Diploma a Diploma Estynedig UAL Awarding Body mewn Celf a Dylunio yn nodedig am gynnyg dysgu arbrofol ac integredig drwy brofiad. Mae'r ddau gymhwyster yn canolbwyntio ar roi sgiliau ymarferol ar waith ac yn cydnabod yr egwyddorion sy'n gyffredin rhwng gwahanol ddisgyblaethau celf a dylunio, yn ogystal â'u nodweddion unigryw.

Nid oes rhaid cwblhau'r cymwysterau o fewn amser penodol, ond fel arfer cwblheir y Diploma mewn blwyddyn a'r Diploma Estynedig dros ddwy flynedd. Mae cysylltiad rhwng unedau'r cymwysterau er mwyn sicrhau cydlyniad, ac mae'r strwythur hwnnw'n caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau ymarferol a dealltwriaeth o ddamcaniaethau a datblygu, trwy broses o ailadrodd ac atgyfnerthu, arferion gwaith effeithiol a fydd yn ategu creadigrwydd ar draws ystod o weithgareddau ysgogol a chynyddol heriol.

Mae uned olaf y Diploma Estynedig (ar gael ar Lefel 3 a 4) yn gofyn i fyfyrwyr, yn enwedig ar Lefel 4, ddangos eu bod yn gallu symbylu eu hunain, ymchwilio, dadansoddi, trefnu, myfyrion a gwerthuso at safon sy'n gymesur ag addysg uwch.

Mae'r cymwysterau'n meithrin dealltwriaeth o'r diwydiannau creadigol ac o'r angen i ddatblygu sgiliau er mwyn sicrhau cyfraniad effeithiol at ddatblygiad y diwydiannau

hynny nawr ac yn y dyfodol. Anogir myfyrwyr i adnabod nodweddion unigryw gwahanol ddisgyblaethau a'r cysylltiadau deinamig ac o bosibl arloesol rhyngddynt.

1.2 Y Diploma yng nghyd- destun y Diploma Estynedig

Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cwblhau'r Diploma Estynedig mewn Celf a Dylunio dros gyfnod enwol o ddwy flynedd. I gefnogi cyfraddau cadw, cyflawniad a llwyddo mewn canolfannau, mae'r Diploma mewn Celf a Dylunio yn cynnig man ymadael wedi'i achredu, gyda thystysgrif ar ddiwedd blwyddyn un.

1.3 Nodau

Dylai myfyrwyr:

1. Fod ag ymwybyddiaeth feirniadol a chyd-destunol o wahanol bersbectifau ac ymagweddau o fewn celf a dylunio neu bynciau astudio neu waith cysylltiedig
2. Ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol er mwyn datblygu datrysiadau creadigol
3. Deall ac addasu sgiliau ymarferol priodol a'u defnyddio'n ddiogel
4. Datrys problemau cymhleth drwy gymhwyso gwybodaeth ymarferol, ddamcaniaethol a thechnegol am gelf a dylunio neu bwnc cysylltiedig
5. Adolygu yn feirniadol effeithiolrwydd a phriodoldeb dulliau, gweithredoedd a chanlyniadau

6. Defnyddio sgiliau gwerthuso a myfyrion i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu, eu datblygiad a'u penderfyniadau eu hunain

7. Cymryd cyfrifoldeb dros yr ymchwilio, y cynllunio, yr amser a'r gweithredoedd sydd eu hangen i gyrchu cyfleoedd i ddatblygu yn y maes

8. Eu cyflwyno eu hunain a'u gwaith yn effeithiol.

1.4 Derbyniadau

Mae UAL Awarding Body yn disgwyl i ganolfannau recriwtio gyda gonestrwydd ac ar sail gallu disgwyliedig y myfyrwyr i gwblhau gofynion yr unedau unigol neu'r cymhwyster cyfan yn llwyddiannus.

Dylai ymgeiswyr roi tystiolaeth o'u dysgu a'u cyflawniad, yn ddefnyddol drwy gyfrwng portffolio o waith. Lle bo modd, dylid eu gwahodd i gyfweiliad personol i alluogi staff sy'n cyflwyno'r cymhwyster i asesu eu gallu a'u potensial i elwa arno.

Mae UAL Awarding Body yn argymhell y dylai fod gan fyfyrwyr 4 x TGAU o leiaf ar radd C neu uwch, ac y dylai o leiaf un o'r rheiny fod mewn pwnc ym maes celf a dylunio (neu'r cymhwyster lefel 2 cyfystyr mewn pwnc priodol).

Dylid cynghori myfyrwyr bod rhai cysiau gradd prifysgol yn gofyn i fyfyrwyr fod wedi ennill graddau C neu uwch mewn TGAU Mathemateg a Saesneg. Gellid cynghori myfyrwyr i gyflawni'r cymwysterau hyn er mwyn sicrhau bod ganddynt y cyfle gorau posibl i fynd ymlaen i Addysg Uwch.

1.5 Strwythur y cymhwyster

Diploma mewn Celf a Dylunio

Unedau gorfodol i'r cyflawni: 9
Cyfanswm Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA): 630
Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC): 1080
Cyfanswm Credydau: 108

| | | |
|---------------|--|--|
| Uned 1 | Cyflwyniad i iaith weledol mewn celf a dylunio | Lefel 3 70 ODA, CAU 100 Credydau: 10 |
| Uned 2 | Cyflwyniad i sgiliau ymchwil mewn celf a dylunio | Lefel 3 70 ODA, CAU 100 Credydau: 10 |
| Uned 3 | Cyflwyniad i ymwybyddiaeth feirniadol a chyd-destunol mewn celf a dylunio | Lefel 3 70 ODA, CAU 100 Credydau: 10 |
| Uned 4 | Cyflwyniad i ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol mewn celf a dylunio | Lefel 3 70 ODA, CAU 100 Credydau: 10 |
| Uned 5 | Dull integredig ar gyfer datrys problemau 2D mewn celf a dylunio | Lefel 3 60 ODA, CAU 90 Credydau: 9 |
| Uned 6 | Dull integredig ar gyfer datrys problemau 3D mewn celf a dylunio | Lefel 3 60 ODA, CAU 90 Credydau: 9 |
| Uned 7 | Dull integredig ar gyfer datrys problemau seiliedig ar amser | Lefel 3 60 ODA, CAU 90 Credydau: 9 |
| Uned 8 | Datblygu prosiect celf a dylunio | Lefel 3 140 ODA, CAU 360 Credydau: 36 |
| Uned 9 | Cyfleoedd i ddatblygu ym maes celf a dylunio | Lefel 3 30 ODA, CAU 50 Credydau: 5 |

Diploma Estynedig mewn Celf a Dylunio

Unedau gorfodol i'w cyflawni: 13
Cyfanswm Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA): 1170
Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC): 2070
Cyfanswm Credydau: 207

Rhaid i fyfyrwyr gyflawni unedau 1–9 y Diploma yn ogystal ag Unedau 10–12 a naill ai Uned 13 neu Uned 14:

| | | |
|----------------|--|--|
| Uned 10 | Nodweddion a chyd-destunau mewn celf a dylunio | Lefel 3 150 ODA, CAU 220 Credydau: 22 |
| Uned 11 | Paratoi ar gyfer datblygu ym maes celf a dylunio | Lefel 3 30 ODA, CAU 50 Credydau: 5 |
| Uned 12 | Cysylltu â chynulleidfa mewn celf a dylunio | Lefel 3 180 ODA, CAU 270 Credydau: 27 |

Rhaid i fyfyrwyr gyflawni un o'r ddwy uned ddewisol isod:

| | | |
|----------------|--|--|
| Uned 13 | Cynnig a gwireddu prosiect mewn celf a dylunio | Lefel 3 180 ODA, CAU 450 Credydau: 45 |
| Uned 14 | Cynnig a gwireddu prosiect mewn celf a dylunio | Lefel 4 180 ODA, CAU 450 Credydau: 45 |

CAC: Cyfanswm Amser y Cymhwyster
CAU: Cyfanswm Amser yr Uned
ODA: Oriau Dysgu dan Arweiniad

1.6 Sylwadau ar strwythur y cymhwyster

Lefel 3 Diploma mewn Celf a Dylunio

Caiff y cymhwyster ei gyflwyno drwy gyfrwng naw uned dros gyfnod enwol o un flwyddyn. Bydd hyd yr unedau'n amrywio er mwyn sicrhau bod y cymhwyster yn rhoi profiad digon cefnogol wrth i fyfyrwr archwilio'r profiad diagnostig wrth baratoi am addysg bellach neu gyflogaeth. Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar fyfyrwr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau, a'r gweithgareddau celf a dylunio penodol y gofynnir i fyfyrwr eu cyflawni.

Unedau 1–4: Dylai'r rhain gysylltu â'i gilydd i fod yn batrwm cydlynol o addysgu a dysgu a fydd yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwr i'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i archwilio, hybu, a chynnal eu datblygiad creadigol a phennu safon y bydd pob gweithgaredd a dysgu arall yn deillio ohoni.

Bydd **Uned 1** yn datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwr er mwyn eu cefnogi i roi **iaith weledol** ar waith yn hyderus mewn gweithgareddau celf a dylunio.

Bydd **Uned 2** yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwr i ystod o weithgareddau **ymchwil a sgiliau** cysylltiedig sy'n briodol i gelf a dylunio. Bydd hefyd yn cyflwyno pa mor bwysig yw cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig fel rhan annatod o'r broses celf a dylunio.

Bydd **Uned 3** yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwr i'r **ymwybyddiaeth feirniadol a chyd-destunol** sy'n berthnasol i gelf a dylunio. Bydd hefyd yn atgyfnerthu pa mor bwysig yw cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig fel rhan annatod o'r broses celf a dylunio.

Bydd **Uned 4** yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwr i ystod o **ddeunyddiau a phrosesau** celf a dylunio, i'w galluogi i ddeall eu nodweddion penodol a sut cânt eu defnyddio, a'r sgiliau **technegol** cysylltiedig sydd eu hangen i gofnodi profiadau a mynegi syniadau.

Unedau 5–7: Mae'r rhain yn gofyn i fyfyrwr roi eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth newydd ar waith mewn cyfres o aseiniadau mwy cymhleth a heriol mewn dau- a thri dimensiwn a thrwy gyfrwng fformatau seiliedig ar amser. Ar yr un pryd â dechrau dod i adnabod nodweddion unigryw gweithgareddau celf a dylunio penodol, cânt eu hannog hefyd i adnabod a deall y nodweddion sy'n gyffredin rhyngddynt.

Bydd **Uned 5** yn rhoi cyfle i fyfyrwr **integreiddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth** a ddysgwyd yn Unedau 1–4, er mwyn cynnig datrysiad i broblem **dau ddimensiwn** mewn celf a dylunio.

Bydd **Uned 6** yn rhoi cyfle i fyfyrwr **integreiddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth** a ddysgwyd yn Unedau 1–4, er mwyn cynnig datrysiad i broblem **tri dimensiwn** mewn celf a dylunio.

Bydd **Uned 7** yn rhoi cyfle i fyfyrwr **integreiddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth** a ddysgwyd yn Unedau 1–4, er mwyn cynnig datrysiad i broblem **seiliedig ar amser** mewn celf a dylunio.

Bydd **Uned 8** yn rhoi blas i fyfyrwr ar lywio eu dysgu eu hunain drwy ddatblygu prosiect celf a dylunio sylweddol. Mae'r uned yn gofyn i fyfyrwr roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd yn Unedau 1–7 ar waith, er mwyn **datblygu prosiect celf a dylunio**. Bydd yn rhoi cyfle iddynt weld eu nodau tymor hwy yn gliriach, drwy ddewis gweithgaredd celf a dylunio i'w archwilio mewn mwy o fanylder.

Gall **Uned 9** gysylltu â'r dysgu ar gyfer Uned 8, ac mae'n defnyddio cyfres o brofiadau dysgu cydlynol i roi **cyflwyniad i fyfyrwr i'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu ymhellach** o fewn addysg a chyflogaeth ym maes celf a dylunio.

Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Celf a Dylunio

Caiff y cymhwyster ei gyflwyno drwy gyfrwng 13 uned dros gyfnod enwol o ddwy flynedd. Mae disgrifiad o Unedau 1–9 ar y dudalen flaenorol, ac o Unedau 10–14 isod.

Bydd **Uned 10** yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth benodol a manwl o'r nodweddion, y cymhlethdod a'r cyd-destunau sy'n diffinio gweithgareddau ym maes celf a dylunio.

Drwy archwilio nodweddion a chyd-destunau celf a dylunio, bydd yr uned yn gofyn i fyfyrwyr gynnal deialog fwy ffurfiol o **groesholi a dealltwriaeth personol** gyda'r nod o gadarnhau cryfderau, brwdfrydedd ac uchelgais.

Bydd **Uned 11** yn rhoi cyfnod i fyfyrwyr ganolbwyntio ar ymchwilio i addysg uwch a chyfleoedd mewn cyflogaeth berthnasol ac i'r sgiliau ymarferol, deallusol a chyfathrebol sy'n ofynnol er mwyn symud ymlaen i Addysg Uwch neu gyflogaeth ym maes celf a dylunio.

Mae **Uned 12** yn gofyn i fyfyrwyr ddatblygu gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth o weithgaredd celf a dylunio penodol ac o'r modd y gellid cyrraedd y gynulleidfa ar gyfer y gweithgaredd hwnnw a chyfathrebu â hi.

Mae'r uned yn rhoi cyfle iddynt **ddangos dealltwriaeth o gynulleidfa ar gyfer eu maes celf a dylunio dewisedig** drwy ymgymryd â thasg neu dasgau seiliedig ar **ddatrys problemau cymhleth**.

Disgwylir i fyfyrwyr gymryd perchenogaeth o'u dysgu drwy ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd estynedig a geir o ran mynegiant personol a chreadigrwydd.

Mae **Unedau 13 ac 14** yn gofyn i fyfyrwyr ddangos eu bod yn gallu dewis, trefnu a chwblhau prosiect celf a dylunio sy'n adlewyrchu lefel a safon eu dysgu.

Mae Unedau 13 ac 14, a gyflawnir ar Lefel 3 neu Lefel 4, yn gofyn i fyfyrwyr gadarnhau eu haeddfedrwydd, yn ôl y lefel, drwy gymryd cyfrifoldeb sylweddol ehangach dros eu dysgu eu hunain, gan ddangos yr hunan-gymhelliant a'r capasiti annibynnol i symbylu, ymchwilio, datblygu, gweithredu, myfyrio ar a gwerthuso **prosiect sylweddol wrth baratoi ar gyfer Addysg Uwch, neu gyflogaeth** yn y gweithgaredd celf a dylunio a ddewiswyd ganddynt.

1.7 Ymsefydlu

Dylai canolfannau ymsefydlu eu myfyrwyr er mwyn sicrhau:

- Y rhoddir llawlyfr cwrs ac unrhyw ddeunyddiau atodol eraill i hwyluso dysgu effeithiol
- Bod trefniadau amserlennu yn glir
- Y darperir systemau tiwtora academiaidd
- Y canfyddir anghenion cefnogi dysgu ac y darperir ar eu cyfer, fel y bo'n briodol
- Y caiff strwythurau'r cyrsiau a'r gofynion asesu eu hesbonio mewn perthynas ag asesu mewnol a safoni allanol
- Y caiff rheoliadau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch eu hesbonio.

1.8 Cynllunio'r rhaglen

Mae UAL Awarding Body yn cefnogi ffyrdd arloesol o ddylunio a chyflwyno rhaglenni o fewn cyd-destun ehangach nodau'r cymhwyster, canlyniadau dysgu a meini prawf asesu. Felly, gellir cyflwyno Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Celf a Dylunio mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Ysgrifennwyd y cymhwyster i gefnogi ystod o opsiynau ar gyfer cyflwyno'r cwrs. Mae'r 13 uned yn canolbwyntio ar brosesau ac egwyddorion sylfaenol ac yn fwriadol osgoi manylu ar gyd-destunau penodol ar gyfer cyflwyno'r cwrs.

Er mai bwriad y cymhwyster yw rhoi mynediad i fyfyrwyr at ystod o ddisgyblaethau, y mae'n gwbl bosibl a dymunol y gellid defnyddio modelau cyflwyno mwy arbenigol i ategu datblygiad myfyrwyr sydd, wrth gychwyn ar y cwrs, â dealltwriaeth gliriach o'r disgyblaethau yr hoffent weithio o'u mewn. Felly, gellid cyflwyno'r rhaglen yng nghyd-destun maes penodol, fel ffasiwn neu ddylunio graffig.

Fodd bynnag, dylid cyflwyno'r rhaglen mewn ffordd gydlynol ac integredig, gan ganolbwyntio fwyfwy dros amser ar y berthynas rhwng datblygiad gwaith myfyriwr a'r dewisiadau a wna.

Wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, rhaid i fyfyrwyr allu dangos cyflawniad o ran dysgu ac

arsylwi a phrofiad ymarferol mewn celf a dylunio, ochr yn ochr â gallu cynyddol i gyfosod eu profiadau wrth baratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad proffesiynol.

Dylai myfyrwyr ddatblygu sylfaen o sgiliau sy'n cydnabod y berthynas rhwng beirniadaeth, damcaniaeth ac ymarfer. Dylent ddeall y berthynas rhwng datblygu eu hymarfer a'r dewisiadau a gwnânt o ran symud ymlaen yn y dyfodol.

Dylai canolfannau sy'n bwriadu cyflwyno'r cymhwyster ymgynffino â'r 13 uned a'r deunyddiau atodol cysylltiedig, gan gynnwys:

- Nodau'r unedau
- Canlyniadau dysgu'r unedau
- Meini prawf asesu'r unedau
- Cynnwys dangosol yr unedau
- Strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu'r unedau
- Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad
- Adnoddau angenrheidiol
- Meini prawf graddio.

Ni ddisgwylir i ganolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddarparu yr un rhaglenni yn union, ond bydd gofyn iddynt ddilyn yr un canlyniadau dysgu a'r un meini prawf asesu er mwyn sicrhau dilyniant cydlynol (patrymau addysgu, dysgu ac asesu sy'n gyson, rhyngweithiol ac integredig) yn hytrach na dull tameidiog ar draws amryw ddisgyblaethau.

Disgwylir y bydd canolfannau'n darparu ar gyfer dysgu o fewn celf, dylunio graffig, dylunio 3D, ffasiwn a thecstilau a'r cyfryngau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ond yn hytrach y mae'n ganllaw i'r meysydd gweithgarwch cyffredinol y mae eu hangen er mwyn bodloni nodau'r cymhwyster a sicrhau profiad diagnostig a phrofiad o drochi go iawn.

1.9 Datblygiad personol a phroffesiynol

Bydd y Diploma a'r Diploma Estynedig mewn Celf a Dylunio yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu a chymhwyso ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy drwy annog ethos o ddatblygiad personol a phroffesiynol. Yn benodol, bydd y rhaglen yn caniatáu i fyfyrwyr ddangos:

- Blaengarwch
- Ymholi annibynnol
- Meddwl yn greadigol
- Dysgu myfyriol
- Gweithio mewn tîm
- Hunan reolaeth
- Cyfranogiad effeithiol
- Datrys problemau
- Cyfathrebu.

1.10 Aseu

Caiff Unedau 1-7 ac Uned 9 Lefel 3 y Diploma mewn Celf a Dylunio eu hasesu'n fewnol a'u dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr ac maent yn ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd allanol UAL Awarding Body.

Caiff Unedau 1-7 a 9-12 Lefel 3 y Diploma Estynedig mewn Celf a Dylunio eu hasesu'n fewnol a'u dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr ac maent yn ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd allanol UAL Awarding Body.

Caiff Uned 8, sef uned olaf ond un Lefel 3 y Diploma mewn Celf a Dylunio, ac Unedau 13 ac 14, sef unedau olaf Lefel 3 a Lefel 4 y Diploma Estynedig mewn Celf a Dylunio, eu hasesu a'u dilysu'n fewnol a'u safoni'n allanol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr yn erbyn y meini prawf aseu a graddio ar gyfer yr unedau hynny.

- Er mwyn ennill gradd Llwyddo yn unrhyw uned, rhaid bodloni'r holl feini prawf aseu. Yn ogystal, gellir dyfarnu graddau Llwyddo, Teilyngdod ac Anrhydedd yn Unedau 8, 13 ac 14
- Er mwyn ennill gradd Teilyngdod neu Anrhydedd, rhaid bodloni holl feini prawf y radd yn llawn yn y categorïau perthnasol. Os na fodlonir meini prawf aseu, yna caiff y myfyriwr ei gyfeirio. Caiff myfyrwyr un cyfle i glirio cyfeiriad.

1.11 Achredu a chyllido

Mae'r cymwysterau wedi'u hachredu gan Ofqual ac maent yn dod o dan y Fframwaith Cymwysterau wedi'u Rheoleiddio (RQF).

Y rhif achredu cymhwyster, neu QAN ('qualification accreditation number'), ar gyfer Lefel 3 Diploma mewn Celf a Dylunio yw [600/2827/0](#)

Y rhif achredu cymhwyster, neu QAN, ar gyfer Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Celf a Dylunio yw [600/2826/9](#)

Gall canolfannau ganfod manylion llawn am drefniadau cyllido'r Asiantaeth Cyllido Addysg ('Education Funding Agency': EFA) a'r Asiantaeth Cyllido Sgiliau ('Skills Funding Agency': SFA) ar gyfer y cymhwyster drwy'r peiriant chwilio nodau dysgu 'The Hub'.

1.12 Tariff UCAS ar gyfer 2016/17 a'r tu hwnt

Mae Lefel 3 Diploma mewn Celf a Dylunio UAL wedi'i gynnwys yn y tariff UCAS ac mae pob gradd derfynol yn rhoi pwyntiau tariff fel a ganlyn:

| | |
|------------|----|
| Llwyddo | 36 |
| Teilyngdod | 60 |
| Anrhydedd | 84 |

Mae Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Celf a Dylunio UAL wedi'i gynnwys yn y tariff UCAS ac mae pob gradd derfynol yn rhoi pwyntiau tariff fel a ganlyn:

| | |
|------------|-----|
| Llwyddo | 72 |
| Teilyngdod | 120 |
| Anrhydedd | 168 |

Lefel 3 Diploma

**Unedau a
chynnwys
dangosol**

Uned 1

Cyflwyniad i iaith weledol mewn celf a dylunio

Lefel: 3

ODA: 70

CAU: 100

Credydau: 10

Nod yr uned: Datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y myfyriwr i gymhwyso iaith weledol yn hyderus mewn ystod o weithgareddau celf a dylunio.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Gallu deall nodweddion iaith weledol mewn celf a dylunio.

2. Gallu cymhwyso iaith weledol at ystod o weithgareddau celf a dylunio.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

1.1 Cymharu yn feiriadol, drwy gymhwyso'n arbrofol, nodweddion ystod eang o elfennau iaith weledol.

2.1 Cymhwyso iaith weledol ar draws ystod o gyd-destunau, i ddylanwadu ar edrychiad ac ystyr mewn celf a dylunio.

2.2 Cymharu yn feiriadol y defnydd o iaith weledol ar draws ystod o gyd-destunau i ddylanwadu ar edrychiad ac ystyr mewn celf a dylunio.

Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau, a'r gweithgareddau penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Mae Uned 1, y gellid ei chysylltu'n ffurfiol ag Uned 2, 3 a 4 drwy aseiniad(au) ar y cyd, wedi'i dylunio i roi corff cydlynol o wybodaeth a fydd yn galluogi myfyrwyr i ddefnyddio elfennau ffurfiol iaith weledol a'r deunyddiau a'r prosesau perthnasol yn hyderus, ac i ddeall y dulliau a'r persbectifau sy'n pennu'r ffordd y cânt eu defnyddio.

Dylai myfyrwyr ddatblygu:

- Dealltwriaeth o iaith weledol fel arf ar gyfer gweithgaredd creadigol ac ystod o sgiliau iaith weledol sy'n briodol i ategu gweithgaredd creadigol
- Ymagwedd feirniadol a dadansoddol at iaith weledol ac ymwbyddiaeth o'r gwahanol gyd-destunau ac ymagweddau at iaith weledol mewn gweithgaredd creadigol ac o'r modd y caiff ei defnyddio.

Dylai myfyrwyr ddeall:

- Sut i ddewis deunyddiau priodol, deall eu potensial a dangos, drwy gyflwyno tystiolaeth, gallu i archwilio potensial iaith weledol i ategu canlyniadau creadigol.

Dylai Uned 1, ar y cyd ag Uned 2, 3 a 4, ddarparu sylfaen o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a fydd yn sail i'r holl ddysgu wedi hynny yn Unedau 5–14. Mae felly'n bwysig sicrhau bod myfyrwyr yn cyrraedd safonau priodol mewn gweithgareddau ymarferol a damcaniaethol.

Gellid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect stiwdio, amgylchedd, oriel neu amgueddfa. Mae'r uned wedi'i dylunio i feithrin hyder y myfyrwr a'i (h)annog i ddod yn gyfarwydd ag ystod o ddeunyddiau a thechnegau, er mwyn archwilio a datblygu defnydd effeithiol o wahanol elfennau iaith weledol wrth ddiffinio edrychiad ac ystyr delwedddau.

Dylid rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr fynegi'u canfyddiadau mewn perthynas â'u gweithgareddau ymarferol.

Dylid annog myfyrwyr i archwilio'r cysylltiad rhwng eu profiadau eu hunain a gwaith artistiaid a dylunwyr eraill.

Gallai ystod o weithgareddau gynnwys:

- Archwiliad o elfennau iaith weledol fel arf ar gyfer gweithgaredd creadigol
- Datblygu ystod o sgiliau iaith weledol i ategu gweithgaredd creadigol
- Defnyddio grwpiau trafod i ddadansoddi pa mor effeithiol yw iaith weledol wrth gyflawni nodau creadigol penodedig.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol.

Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyrwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd allanol UAL Awarding Body. Dylid cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon â'r rhai ar gyfer Uned 2, 3 a 4.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys archwiliadau o iaith weledol wedi'u cyflwyno mewn llyfrau gwaith, ar bapur / bwrdd / neu unrhyw ddeunydd arall gan gynnwys deunydd digidol, mewn unrhyw gyfrwng neu ar unrhyw raddfa. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys: stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

Uned 2

Cyflwyniad i sgiliau ymchwil mewn celf a dylunio

Lefel: 3

ODA: 70

CAU: 100

Credydau: 10

Nod yr uned: Rhoi cyflwyniad i'r myfyriwr i ystod o weithgareddau ymchwil a sgiliau cysylltiedig sy'n briodol ar gyfer ategu gweithgareddau celf a dylunio. Bydd yr uned hefyd yn datblygu dealltwriaeth o'r rôl hanfodol y mae ymchwil yn ei chwarae yn y gwaith o fwydo i syniadau a'u datblygu.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

- Deall arfau, dulliau a sgiliau ymchwil.
- Deall ffynonellau ymchwil gwreiddiol ac eilaidd.
- Gallu defnyddio arfau, dulliau a sgiliau ymchwil i fwydo i syniadau am weithgareddau creadigol.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Cymharu ystod o arfau, dulliau a sgiliau ymchwil yn feirniadol.
- 2.1 Cymharu ystod o ffynonellau ymchwil gwreiddiol ac eilaidd yn feirniadol.
- 3.1 Cymhwyso arfau, dulliau a sgiliau ymchwil er mwyn cofnodi a dehongli gwybodaeth a datblygu syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol.
- 3.2 Gwerthuso pa mor effeithiol yw arfau, dulliau a sgiliau ymchwil wrth ddatblygu syniadau am weithgareddau creadigol.

Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniad(au), a'r gweithgareddau celf a dylunio penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni, er y disgwylir y caiff myfyrwyr eu cyflwyno i ystod o weithgareddau dros gyfnod y cymhwyster.

Mae Uned 2, y gellid ei chysylltu'n ffurfiol ag Uned 1, 3 a 4 drwy aseiniad(au) ar y cyd, wedi'i dylunio i roi corff cydlynol o wybodaeth a fydd yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth o sgiliau ymchwil fel arf allweddol yn y gwaith o ganfod, dehongli a gwerthuso syniadau. Dylai arfer dda annog cofnodi a gwerthuso gwybodaeth berthnasol yn rhwydd ar ba ffurf bynnag sy'n briodol ac yn ystyrion. Dylid annog myfyrwyr i ddatblygu strategaethau, sgiliau a dulliau ymchwil priodol i gefnogi eu holl weithgareddau celf a dylunio.

Dylai'r uned hon, ar y cyd ag Uned 1, 3 a 4, ddarparu sylfaen o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a fydd yn sail i'r holl ddysgu wedi hynny yn Unedau 5–14. Mae felly'n bwysig sicrhau bod myfyrwyr yn cyrraedd safonau priodol mewn gweithgareddau ymarferol a damcaniaethol.

Gellid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect stiwdio, llyfrgell, oriel neu amgueddfa. Mae'r uned wedi'i dylunio i feithrin hyder y myfyriwr a'i (h)annog i ddod yn gyfarwydd ag ystod o sgiliau ymchwil, gan gynnwys darlunio, cymryd nodiadau a ffurfiau eraill ar gofnodi gwybodaeth. Mae'r uned hon yn rhoi cyfle cynnar i fyfyrwyr ddatblygu eu llythrennedd drwy archwilio geirfa celf a dylunio. Dylid rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr fynegi eu canfyddiadau mewn perthynas â'u gweithgareddau ymchwil.

Dylid annog myfyrwyr hefyd i fod yn fentrus ac i gadw meddwl agored wrth archwilio a chofnodi ystod o ffynonellau gwybodaeth ond i barhau'n ymwybodol o'r berthynas rhwng eu gweithgareddau ymchwil a'u gweithgareddau creadigol penodol.

Bydd gweithgareddau ymarferol yn yr uned hon yn gofyn i'r myfyriwr ganfod a deall ffynonellau ymchwil a, thrwy ddarlunio, cymryd nodiadau a chadw unrhyw ffurf arall ar gofnodion yn effeithiol, i adnabod, archwilio a gwerthuso syniadau a gwybodaeth er mwyn ategu gweithgareddau creadigol.

Gallai ystod o weithgareddau gynnwys:

- Archwilio ystod o ffynonellau ymchwil
- Archwilio ystod o ddulliau ar gyfer cofnodi ffynonellau ymchwil
- Archwilio gwaith ymchwil ar gyfer prosiect penodol, yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer unedau 1, 3 a 4.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol.

Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd UAL Awarding Body. Dylid cyfuno gweithgareddau asesu'r uned hon â rhai Unedau 1, 3 a 4.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi, ond gallai gynnwys, er enghraifft, ymchwil ar gyfer gweithgareddau celf a dylunio wedi'u cyflwyno mewn llyfrau gwaith myfyriol, llyfrau nodiadau neu ddeunydd digidol. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddefnyddio'r ffurf fwyaf priodol o gyflwyno tystiolaeth eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

Uned 3

Cyflwyniad i ymwybyddiaeth feirniadol a chyd- destunol mewn celf a dylunio

Lefel: 3

ODA: 70

CAU: 100

Credydau: 10

Nod yr uned: Meithrin ymwybyddiaeth y myfyriwr o'r persbectifau beirniadol a'r fframweithiau cyd-destunol sy'n ategu gweithgareddau ymarferol mewn celf a dylunio.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Deall persbectifau beirniadol sy'n dylanwadu ar ddadansoddiadau o weithgareddau celf a dylunio.

2. Deall y cyd-destunau y caiff celf a dylunio eu lleoli o'u mewn.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

1.1 Cymharu'n feirniadol ystod o bersbectifau beirniadol sy'n dylanwadu ar ddadansoddiadau o gelf a dylunio.

1.2 Cymhwyso gwybodaeth am bersbectifau beirniadol at ddadansoddiadau o ystod o weithgareddau celf a dylunio.

1.3 Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am ystod o bersbectifau beirniadol er mwyn ategu ei ymarfer celf a dylunio ei hun.

2.1 Cymharu'n feirniadol ystod o gyd-destunau y caiff celf a dylunio eu lleoli o'u mewn.

2.2 Cymhwyso dealltwriaeth o ystod o baramedrau cyd-destunol er mwyn cefnogi ei (d)datblygiad ei hun.

Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniad(au), a'r gweithgareddau penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Mae'r uned hon, y gellid ei chysylltu'n ffurfiol ag Uned 1, 2 a 4 drwy aseiniad(au) ar y cyd, wedi'i dylunio i roi corff cydlynol o wybodaeth sydd â'r nod o ddatblygu'r sgiliau dadansoddol a beirniadol sydd eu hangen i ategu gweithgareddau creadigol gwybodus. Mae hefyd wedi'i dylunio i alluogi'r myfyriwr i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cyd-destunau ehangach y caiff gweithgareddau celf a dylunio eu lleoli o'u mewn.

Dylai'r uned hon, ar y cyd ag Uned 1, 2 a 4, ddarparu sylfaen o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a fydd yn sail i'r holl ddysgu wedi hynny yn Unedau 5–13 ac 14. Mae felly'n bwysig sicrhau bod myfyriwr yn cyrraedd safonau priodol mewn gweithgareddau ymarferol a damcaniaethol.

Gellid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect(au) stiwdio, llyfrgell, oriel neu amgueddfa. Mae'r uned wedi'i dylunio i feithrin hyder y myfyriwr a'i (h)annog i ddod yn gyfarwydd â dadansoddi beirniadol ac ymwybyddiaeth gyd-destunol.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle cynnar i fyfyrwyr ddatblygu eu llythrennedd drwy lunio dadansoddiad testun estynedig i ategu celf a dylunio. Dylid rhoi cyfleoedd hefyd i fyfyrwyr fynegi eu canfyddiadau mewn trafodaethau dan arweiniad a gwaith grŵp.

Dylid annog myfyriwr hefyd i fod yn fentrus a chadw meddwl agored wrth archwilio, dadansoddi a gwerthuso ystod o ffurfiau o ddadansoddi beirniadol a phersbectifau cyd-destunol. Dylid annog myfyriwr hefyd i ddeall y berthynas rhwng astudio dadansoddi beirniadol a phersbectifau cyd-destunol a'u gweithgareddau creadigol eu hunain.

Gall ymwybyddiaeth feirniadol ymddrin ag iaith a chyfathrebu, ffurf ac ystyr, gwerthoedd a bwriad, a materion cysylltiedig eraill.

Gall ymwybyddiaeth gyd-destunol hefyd ymddrin â phersbectifau diwylliannol (hanesyddol a chyfredol), persbectifau cymdeithasol (rhoi ffurf ar gymdeithas a'i hadlewyrchu), cyd-destunau proffesiynol (gweithleoedd, sefydliadau a gyrfaoedd), a materion cysylltiedig eraill.

Mae'r gweithgareddau yn yr uned hon yn gofyn i fyfyrwr adnabod a deall persbectifau cyd-destunol, rhoi dadansoddi a gwerthuso ar waith, a chofnodi eu canfyddiadau ar ffurfiau priodol, gan gynnwys mewn testunau estynedig.

Gallai ystod o weithgareddau gynnwys:

- Archwilio ymwybyddiaeth feirniadol drwy gyfrwng ystod o ffurfiau cyflwyno, gan gynnwys darlithoedd, seminarau, grwpiau trafod a gweithdai. Ble bynnag y bo modd, dylid ystyried cysylltu'r gweithgareddau sy'n ategu'r dysgu yn yr uned hon â'r dysgu yn Uned 1, 2 a 4
- Archwilio ymwybyddiaeth gyd-destunol, iaith a chyfathrebu drwy gyfrwng ystod o ffurfiau cyflwyno, gan gynnwys darlithoedd, seminarau, grwpiau trafod, gweithdai. Ble bynnag y bo modd, dylid ystyried cysylltu'r gweithgareddau sy'n ategu'r dysgu yn yr uned hon â'r dysgu yn Uned 1, 2 a 4.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyriwr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyriwr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd allanol UAL Awarding Body. Gellir cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon â'r rhai ar gyfer Unedau 1, 2 a 4.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys cofnod o ddadansoddiad beirniadol a phersbectif cyd-destunol wedi'i gyflwyno mewn adroddiadau, testunau estynedig, traethodau, recordiadau digidol a ffurfiau eraill ar gyflwyno. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyriwr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

Uned 4

Cyflwyniad i ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol mewn celf a dylunio

Lefel: 3

ODA: 70

CAU: 100

Credydau: 10

Nod yr uned: Rhoi cyflwyniad i'r myfyriwr i ystod o ddeunyddiau a phrosesau sy'n cael eu defnyddio mewn celf a dylunio, eu nodweddion penodol, a'r sgiliau technegol cysylltiedig sydd eu hangen i gofnodi profiadau a mynegi syniadau.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Deall deunyddiau, prosesau a sgiliau technegol sy'n cael eu defnyddio mewn celf a dylunio.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Cymharu'n feirniadol ystod o ddeunyddiau a phrosesau sy'n cael eu defnyddio mewn celf a dylunio drwy eu cymhwyso mewn ffordd arbrofol.
- 1.2 Cymhwyso dealltwriaeth o ddeunyddiau a phrosesau er mwyn ategu ei (g)weithgareddau celf a dylunio ei hun.
- 1.3 Cymhwyso dealltwriaeth o sgiliau technegol er mwyn ategu ei (g)weithgareddau celf a dylunio eu hun.
- 1.4 Gwerthuso'r defnydd o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol i ategu gweithgareddau celf a dylunio.

Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniad(au), a'r gweithgareddau celf a dylunio penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni. Fodd bynnag, disgwylir y caiff myfyrwyr eu cyflwyno i ystod o weithgareddau dros gyfnod y cymhwyster.

Mae'r uned hon, y gellid ei chysylltu'n ffurfiol ag Uned 1, 2 a 3 drwy aseiniad(au) ar y cyd, wedi'i dylunio i roi corff cydlynol o wybodaeth a fydd yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r ystod o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol a ddefnyddir mewn celf a dylunio.

Dylai'r uned hon, ar y cyd ag Uned 1, 2 a 3, ddarparu sylfaen o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a fydd yn sail i'r holl ddysgu wedi hynny yn Unedau 5–14. Mae felly'n bwysig sicrhau bod myfyrwyr yn cyrraedd safonau priodol mewn gweithgareddau ymarferol a damcaniaethol.

Gellid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect stiwdio neu weithdy sydd â'r nod o feithrin hyder y myfyriwr a'i annog i ddod yn gyfarwydd ag ystod o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol.

Dylid annog myfyrwyr i fod yn fentrus a chadw meddwl agored wrth archwilio a gwerthuso ystod o ddeunyddiau a phrosesau. Mae'r uned hon wedi'i dylunio i roi profiad ymarferol iddynt.

Gallai'r gweithgareddau ymarferol yn yr uned hon ofyn i fyfyrwyr bennu a deall ystod o ddeunyddiau a phrosesau, a dangos sut cânt eu defnyddio mewn ffordd briodol o fedrus i sicrhau y caiff profiadau a syniadau eu cyfathrebu'n llwyddiannus.

Dylid annog myfyrwyr i archwilio'r cysylltiad rhwng eu profiadau eu hunain a gwaith artistiaid a dylunwyr eraill.

Gallai ystod o weithgareddau gynnwys:

- Archwilio ystod o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol sy'n cael eu defnyddio mewn celf a dylunio.
- Archwilio sut caiff deunyddiau, prosesau a sgiliau technegol eu defnyddio i fodloni nodau penodol mewn aseiniad(au) celf a dylunio
- Defnyddio grwpiau trafod i ddadansoddi pa mor effeithiol yw gwahanol ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol wrth gyflawni'r nodau creadigol penodol.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd UAL Awarding Body. Gellir cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon â'r rhai ar gyfer Unedau 1–3.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi, a gallai, er enghraifft, gynnwys dyddiaduron myfyriol, llyfrau gwaith, llyfrau nodiadau, portffolios o ddarluniau, lluniau a dyluniadau, deunydd digidol, gwrthrychau wedi'u saernio. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

Uned 5

Dull integredig ar gyfer datrys problemau 2D mewn celf a dylunio

Lefel: 3

ODA: 60

CAU: 90

Credydau: 9

Nod yr uned: Datblygu gallu'r myfyriwr i ddadansoddi'n feiniadol ac integreiddio ymchwil, dealltwriaeth gydestunol, deunyddiau, dulliau a sgiliau er mwyn datrys problemau dau-ddimensiwn mewn celf a dylunio.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Gallu dadansoddi ac ymchwilio i broblem dau-ddimensiwn mewn celf a dylunio.
2. Gallu defnyddio dull integredig ar gyfer datrys problemau dau-ddimensiwn mewn celf a dylunio.
3. Gallu defnyddio gwerthusiadau i ategu datrysiadau i broblemau dau-ddimensiwn mewn celf a dylunio.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Dadansoddi gofynion a pharamedrau problemau dau-ddimensiwn mewn celf a dylunio.
- 1.2 Cymhwyso gweithgareddau ymchwil er mwyn ategu datrysiadau i broblem dau-ddimensiwn mewn celf a dylunio.
- 2.1 Dangos y gallu i gynllunio, trefnu a pharatoi datrysiadau i broblem dau-ddimensiwn mewn celf a dylunio.
- 2.2 Cymhwyso sgiliau, dealltwriaeth a dulliau ymarferol er mwyn datrys problemau dau-ddimensiwn mewn celf a dylunio.
- 3.1 Dadansoddi pa mor effeithiol yw datrysiadau i broblemau dau-ddimensiwn mewn celf a dylunio.

Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniad(au), a'r gweithgareddau 2D celf a dylunio penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Mae'r uned hon wedi'i dylunio i roi cyfle i'r myfyriwr integreiddio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a ddysgodd yn Unedau 1–4, er mwyn datrys problem dduddimensiwn benodol mewn celf a dylunio.

Gellid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect stiwdio, amgylchedd, llyfrgell, oriel neu amgueddfa. Mae'r uned wedi'i dylunio i gryfhau hyder y myfyriwr a'i helpu i ddod yn fwy cyfarwydd â'r ystod o weithgareddau sydd eu hangen i ddatrys problem benodol yn effeithiol.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle pellach i fyfyrwyr gryfhau eu llythrennedd gweledol, llafar ac ysgrifenedig drwy archwilio datrysiadau i broblemau celf a dylunio penodol. Dylid rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr fynegi a chofnodi eu canfyddiadau, ar ffurf ysgrifenedig a gweledol, mewn perthynas â'u datrysiadau arfaethedig. Gellir defnyddio grwpiau trafod, seminarau, gweithdai a darlithoedd i ategu'r dysgu yn yr uned hon.

Gellid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon drwy gyfrwng aseiniadau sy'n annog neu'n

mynnu gwaith tîm. Mae'n bwysig cydnabod bod gweithio mewn tîm yn arfer safonol mewn llawer o broffesiynau celf a dylunio.

Gellir cysylltu'r dysgu ar gyfer yr uned hon hefyd â'r dysgu ar gyfer Uned 6 a/neu 7.

Gellir cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon drwy gyfrwng aseiniad 'byw', sydd wedi'i osod yn allanol a than symbyliad client, sydd â'r nod o wella dealltwriaeth myfyrwyr am gyfyngiadau masnachol ac o gryfhau eu dealltwriaeth o'r angen am fethodoleg gadarn.

Dylid annog myfyrwyr i archwilio'r cysylltiad rhwng eu profiadau eu hunain a gwaith artistiaid a dylunwyr eraill.

Gallai ystod o weithgareddau gynnwys:

- Aseiniad(au) a osodir yn fewnol sy'n cynnwys problem yn gofyn datrysiad gweledol mewn dau ddimensiwn.
- Aseiniad(au) a osodir yn allanol sy'n cynnwys problem yn gofyn datrysiad gweledol mewn dau ddimensiwn.
- Archwilio datrysiad i broblem celf neu ddylunio.

Gall yr aseiniad(au) fod yn eithaf syml neu'n amlweddog, gan ganiatáu i'r myfyriwr ddewis i ryw raddau.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd UAL Awarding Body. Gellir cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon â'r rhai ar gyfer Uned 6 a 7.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi, a gallai, er enghraifft, gynnwys ymchwil, persbectifau cyd-destunol a gweithgareddau ymarferol, wedi'u cyflwyno mewn llyfrau gwaith, llyfrau nodiadau, dyddiaduron myfyriol, deunydd digidol, astudiaethau paratoi, taflenni datblygu a chynigion wedi'u gwireddu. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

Uned 6

Dull integredig ar gyfer datrys problemau 3D mewn celf a dylunio

Lefel: 3

ODA: 60

CAU: 90

Credydau: 9

Nod yr uned: Datblygu gallu'r myfyriwr i ddadansoddi'n feiniadol ac integreiddio ymchwil, dealltwriaeth gyd-destunol, deunyddiau, dulliau a sgiliau er mwyn datrys problemau tri-dimensiwn mewn celf a dylunio.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Gallu dadansoddi ac ymchwilio i broblem tri-dimensiwn mewn celf a dylunio.
2. Gallu defnyddio dull integredig ar gyfer datrys problem tri-dimensiwn mewn celf a dylunio.
3. Gallu defnyddio gwerthusiadau i ategu datrysiadau i broblemau tri-dimensiwn mewn celf a dylunio.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Dadansoddi gofynion a pharamedrau problem tri-dimensiwn mewn celf a dylunio.
- 1.2 Cymhwyso gweithgareddau ymchwil er mwyn ategu datrysiadau i broblem tri-dimensiwn mewn celf a dylunio.
- 2.1 Dangos y gallu i gynllunio, trefnu a pharatoi datrysiadau i broblem tri-dimensiwn mewn celf a dylunio.
- 2.2 Cymhwyso sgiliau, dealltwriaeth a dulliau ymarferol er mwyn datrys problemau tri-dimensiwn mewn celf a dylunio.
- 3.1 Dadansoddi pa mor effeithiol yw datrysiadau i broblemau tri-dimensiwn mewn celf a dylunio.

Cynnwys digidol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniad(au), a'r gweithgareddau celf a dylunio 3D penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Mae'r uned hon wedi'i dylunio i roi cyfle i'r myfyriwr integreiddio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a ddysgodd yn Unedau 1–4, er mwyn datrys problem tri-dimensiwn benodol mewn celf a dylunio.

Gellid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect stiwdio, amgylchedd, llyfrgell, oriel neu amgueddfa. Mae'r uned wedi'i dylunio i gryfhau hyder y myfyriwr a'i helpu i ddod yn fwy cyfarwydd â'r ystod o weithgareddau sydd eu hangen i ddatrys problem benodol yn effeithiol. Mae'n rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr gryfhau eu llythrennedd gweledol, llafar ac ysgrifenedig drwy archwilio datrysiadau i broblemau celf a dylunio penodol.

Dylid rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr fynegi a chofnodi eu canfyddiadau, ar ffurf ysgrifenedig a gweledol, mewn perthynas â'u datrysiadau arfaethedig. Gellir defnyddio grwpiau trafod, seminarau, gweithdai a darlithoedd i ategu'r dysgu yn yr uned hon.

Gellid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon drwy gyfrwng aseiniadau sy'n annog neu'n

mynnu gwaith tîm. Mae'n bwysig cydnabod bod gweithio mewn tîm yn arfer safonol mewn llawer o broffesiynau celf a dylunio.

Gellir cysylltu'r dysgu ar gyfer yr uned hon hefyd â'r dysgu ar gyfer Uned 5 a/neu 7.

Gellir cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon drwy gyfrwng aseiniad 'byw', sydd wedi'i osod yn allanol a than symbyliad client, sy'n annog myfywrwyr i ddeall cyfyngiadau masnachol ac yn cryfhau eu dealltwriaeth o'r angen am fethodoleg gadarn.

Dylid annog myfywrwyr i archwilio'r cysylltiad rhwng eu profiadau eu hunain a gwaith artistiaid a dylunwyr eraill.

Gallai ystod o weithgareddau gynnwys:

- Aseiniad(au) a osodir yn fewnol sy'n cynnwys problem yn gofyn datrysiad mewn tri dimensiwn.
- Aseiniad(au) a osodir yn allanol sy'n cynnwys problem yn gofyn datrysiad mewn tri dimensiwn.

Gall yr aseiniad(au) fod yn eithaf syml neu'n amlweddog, gan ganiatáu i'r myfyriwr ddewis i ryw raddau.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfywrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfywrwyr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd UAL Awarding Body. Gellir cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon â'r rhai ar gyfer Uned 5 a 7.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi, a gallai, er enghraifft, gynnwys ymchwil, persbectifau cyd-destunol a gweithgareddau ymarferol, wedi'u cyflwyno mewn llyfrau gwaith, llyfrau nodiadau, dyddiaduron myfyriol, deunydd digidol, astudiaethau paratoi, taflenni datblygu a chynigion wedi'u gwireddu. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfywrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

Uned 7

Dull integredig ar gyfer datrys problemau seiliedig ar amser

Lefel: 3

ODA: 60

CAU: 90

Credydau: 9

Nod yr uned: Datblygu gallu'r myfyriwr i ddadansoddi'n feiriadol ac integreiddio ymchwil, dealltwriaeth gyd-destunol, deunyddiau, dulliau a sgiliau er mwyn datrys problemau seiliedig ar amser mewn celf a dylunio.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Gallu dadansoddi ac ymchwilio i broblem seiliedig ar amser mewn celf a dylunio.

2. Gallu defnyddio dull integredig ar gyfer datrys problemau seiliedig ar amser mewn celf a dylunio.

3. Gallu defnyddio gwerthusiadau i ategu datrysiadau i broblemau seiliedig ar amser mewn celf a dylunio.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

1.1 Dadansoddi gofynion a pharamedrau problem seiliedig ar amser mewn celf a dylunio.

1.2 Cymhwyso gweithgareddau ymchwil er mwyn ategu datrysiadau i broblem seiliedig ar amser mewn celf a dylunio.

2.1 Dangos y gallu i gynllunio, trefnu a pharatoi datrysiadau i broblem seiliedig ar amser mewn celf a dylunio.

2.2 Cymhwyso sgiliau, dealltwriaeth a dulliau ymarferol er mwyn datrys problemau seiliedig ar amser mewn celf a dylunio.

3.1 Dadansoddi pa mor effeithiol yw datrysiadau i broblemau seiliedig ar amser mewn celf a dylunio.

Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniad(au), a'r gweithgareddau celf a dylunio seiliedig ar amser penodol y gofynnir i fyfyrwr eu cyflawni.

Gall gweithgareddau seiliedig ar amser gynnwys unrhyw ffurf ar gyfathrebu sy'n gofyn naratif neu ddilyniant o ddelweddau, synau neu wybodaeth. Gallant archwilio ac ymdrin yn uniongyrchol â chyfryngau traddodiadol delwedd symudol neu ategu ac ymestyn ffurfiau eraill ar weithgareddau celf a dylunio.

Nid yw'r dechnoleg y dylid ei defnyddio i fodloni gofynion yr uned wedi'i nodi. Yn hytrach, anogir canolfannau i gydnabod y twf mewn ffurfiau newydd ar dechnoleg a'r ffordd y maent yn trawsffurfio sawl ffurf ar gyfathrebu. Ni ddisgwylir y bydd angen systemau drud na'r rhai mwyaf datblygedig ar ganolfannau i gyflwyno'r uned hon, ond bydd canolfannau'n annog defnydd creadigol o unrhyw dechnoleg sydd ar gael.

Mae'r uned hon wedi'i dylunio i roi cyfle i'r myfyriwr integreiddio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a ddysgodd yn Unedau 1-4, i ddatrys problem benodol gyda delweddu seiliedig ar amser.

Gellid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect stiwdio, llyfrgell, oriel neu amgueddfa. Mae'r uned wedi'i dylunio i gryfhau hyder y myfyriwr a'i helpu i ddod yn fwy cyfarwydd â'r ystod o weithgareddau sydd eu hangen i ddatrys problem benodol yn effeithiol.

Bydd yn rhoi cyfle pellach i fyfyrwr gryfhau eu llythrennedd gweledol, llafar ac ysgrifenedig drwy archwilio datrysiadau i broblemau celf a dylunio penodol. Dylid rhoi cyfleoedd i fyfyrwr fynegi a chofnodi eu canfyddiadau, ar ffurf ysgrifenedig a gweledol, mewn perthynas â'u datrysiadau arfaethedig.

Gellir defnyddio grwpiau trafod, seminarau, gweithdai a darlithoedd i ategu'r dysgu ar gyfer yr uned hon.

Gellid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon drwy gyfrwng aseiniadau sy'n annog neu'n mynnu gwaith tîm. Mae'n bwysig cydnabod bod gweithio mewn tîm yn arfer safonol mewn llawer o broffesiynau celf a dylunio.

Gellir cysylltu'r dysgu ar gyfer yr uned hon hefyd â'r dysgu ar gyfer Uned 5a/neu 6.

Gellir cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon drwy gyfrwng aseiniad 'byw', sydd wedi'i osod yn allanol a than symbyliad client, i wella dealltwriaeth myfyriwr o gyfyngiadau masnachol a chryfhau eu dealltwriaeth o'r angen am fethodoleg gadarn. Dylid annog myfyriwr i archwilio'r cysylltiad rhwng eu profiadau eu hunain a gwaith artistiaid a dylunwr eraill.

Gallai ystod o weithgareddau gynnwys:

- Aseiniad(au) a osodir yn fewnol sy'n cynnwys problem yn gofyn datrysiad gweledol gyda delweddu seiliedig ar amser.
- Aseiniad(au) a osodir yn allanol sy'n cynnwys problem yn gofyn datrysiad gweledol gyda delweddu seiliedig ar amser.

Gall yr aseiniad(au) fod yn eithaf syml neu'n amlweddol, gan ganiatáu i'r myfyriwr ddewis i ryw raddau.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyriwr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyriwr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd UAL Awarding Body. Gellir cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon â'r rhai ar gyfer Uned 5 a 6.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi, a gallai, er enghraifft, gynnwys ymchwil, persbectifau cyd-destunol a gweithgareddau ymarferol, wedi'u cyflwyno mewn llyfrau gwaith, llyfrau nodiadau, dyddiaduron myfyriol, deunydd digidol, gwaith datblygu, animeiddiadau, a chynigion wedi'u gwireddu o waith seiliedig ar amser. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyriwr i

ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

Uned 8

Datblygu prosiect celf a dylunio

Lefel: 3

ODA: 140 CAU: 360 Credydau: 36

Nod yr uned: Bydd y myfyriwr yn defnyddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd yn yr unedau blaenorol i gyflawni prosiect celf a dylunio. Bydd yr uned hon hefyd yn rhoi cyfle i'r myfyriwr archwilio gweithgaredd celf a dylunio o'i (d)dewis mewn mwy o fanylder.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Deall gofynion prosiect celf a dylunio.

2. Gallu cyflawni prosiect celf a dylunio.

3. Gallu gwerthuso prosiect celf a dylunio.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

1.1 Dadansoddi gofynion a pharamedrau prosiect celf a dylunio.

2.1 Dadansoddi ystod o ffynonellau ymchwil i ategu prosiect celf a dylunio.

2.2 Dehongli gweithgaredd ymchwil i ddatblygu syniadau a chynigion creadigol.

2.3 Dangos y gallu i gynllunio, trefnu a datblygu prosiect celf a dylunio.

2.4 Cymhwysu sgiliau ymarferol a gwybodaeth a dealltwriaeth damcaniaethol er mwyn cyflawni prosiect celf a dylunio o fewn amserlen y cytunir arni.

3.1 Gwerthuso prosiect celf a dylunio yn feiriadol yn erbyn y gofynion a'r paramedrau y cytunir arnynt.

Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniad(au), a'r gweithgareddau celf a dylunio penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Mae'r uned hon wedi'i dylunio i roi cyfle i fyfyrwyr ddefnyddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd yn yr unedau blaenorol, er mwyn ymateb i ofynion prosiect celf a dylunio. Dylid strwythuro'r dysgu ar gyfer yr uned hon i sicrhau bod cyfle i fyfyrwyr gymryd yr awenau i raddau wrth ddatblygu prosiect o fewn cyfyngiadau penodol.

Gellir cyfuno'r dysgu ar gyfer yr uned hon â'r dysgu ar gyfer Uned 9. Bydd yn bwysig i ganolfannau ddarparu strwythur sy'n ddigon cefnogol ar yr un pryd ag annog blaengarwch ac uchelgais yn y myfyriwr. Bydd arfer dda yn sicrhau y caiff myfyrwyr gyfle i drafod eu bwriadau gyda'r staff cyflwyno cyn ymrwymo i gynnig cydlynol am brosiect. Mae hefyd yn bwysig bod myfyrwyr yn cydnabod gwerth dialog a chyfathrebu, a hynny gyda'u cyd-fyfyrwyr a staff proffesiynol, wrth ddadansoddi a gwerthuso'u syniadau a'u huchelgeisiau. Y ganolfan ddylai bennu fformat y cynnig am brosiect.

Dylid annog myfyrwyr i gydnabod y bydd angen iddynt fod yn realistig o ran nodau dichonol, adnoddau materol a rheoli amser, wrth ddatblygu datrysiad sydd, serch hynny, yn greadigol ac yn llawn dychymyg.

Gall myfyrwyr ddewis gweithio o fewn tîm i gwblhau prosiect ond bydd angen i gyfrifoldebau a chyfraniadau unigolion i'r prosiect fod yn gwbl glir.

Mae'r uned yn rhoi cyfle delfrydol i fyfyrwyr ymestyn a datblygu'r defnydd o ddyddiadur myfyriol personol i gofnodi'u syniadau a'u canfyddiadau yn y gwaith o ddatblygu, cyflawni a gwerthuso'r prosiect.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon mewn amgylchedd stiwdio neu drwy gyfrwng prosiect(au) gweithdy sydd â'r nod o annog myfyrwyr i ddechrau cymryd cyfrifoldeb dros lywio a threfnu eu dysgu eu hunain. Dylid annog myfyrwyr i gymryd agwedd fyfyriol a gwerthusol ar bob cam yn y prosiect.

Dylid annog myfyrwyr hefyd i archwilio'r cysylltiad rhwng eu profiadau eu hunain a gwaith artistiaid a dylunwyr perthnasol eraill.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n fewnol ac yn allanol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr yn erbyn canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi, a gallai, er enghraifft, gynnwys dyddiaduron myfyriol personol, llyfrau gwaith, llyfrau nodiadau, portffolios o ddarluniau, o ddelweddau ac o ddyluniadau, deunydd digidol, gwrthrychau wedi'u saernio. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

Uned 9

Cyfleoedd i ddatblygu ym maes celf a dylunio

Lefel: 3

ODA: 30

CAU: 50

Credydau: 5

Nod yr uned: Cyflwyno'r ystod o gyfleoedd i ddatblygu o fewn addysg celf a dylunio a'r farchnad gyflogaeth gysylltiedig a chefnogi ceisiadau gwybodus i addysg celf a dylunio neu gyflogaeth sy'n gysylltiedig â chelf a dylunio.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

- Deall cyfleoedd i ddatblygu ym maes celf a dylunio.
- Deall sgiliau cyfathrebu ar gyfer celf a dylunio.
- Deall sgiliau cyflwyno ar gyfer celf a dylunio.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- Disgrifio'n feirniadol y cyfleoedd i ddatblygu o fewn addysg celf a dylunio neu gyflogaeth gysylltiedig.
- Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfleoedd i ddatblygu i ategu cynnydd o fewn addysg celf a dylunio neu gyflogaeth gysylltiedig.
- Disgrifio'n feirniadol y sgiliau cyfathrebu sydd eu hangen er mwyn datblygu o fewn addysg celf a dylunio neu gyflogaeth gysylltiedig.
- Defnyddio sgiliau cyfathrebu i ategu datblygiad o fewn addysg celf a dylunio neu gyflogaeth gysylltiedig.
- Disgrifio'n feirniadol y sgiliau cyflwyno sydd eu hangen er mwyn datblygu o fewn addysg celf a dylunio neu gyflogaeth gysylltiedig.
- Defnyddio sgiliau cyflwyno i ategu datblygiad o fewn addysg celf a dylunio neu gyflogaeth gysylltiedig.

Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniad(au), a'r gweithgareddau celf a dylunio penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Mae'r uned hon wedi'i dylunio i ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o'r ystod o gyfleoedd o ran addysg a gyrfa ym maes celf a dylunio. Dylid defnyddio'r uned i hybu datblygiad ystod o sgiliau cyflwyno a chyfathrebu effeithiol sy'n briodol ar gyfer cyfleoedd i ddatblygu ym maes celf a dylunio.

Gellir cyfuno'r dysgu ar gyfer yr uned hon â'r dysgu ar gyfer Uned 8.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon drwy gyfrwng ystod o weithgareddau ymchwil ac archwilio sydd wedi'u strwythuro'n briodol, a thrwy gyfrwng arfau dadansoddi eraill, ochr yn ochr â chyfleoedd i'r myfyrwyr archwilio a datblygu ystod o arfau cyfathrebu a chyflwyno sy'n briodol i brosesau ymgeisio a chyfweld.

Gallai ystod o weithgareddau gynnwys darlithoedd, trafodaethau, gweithdai, efelychiadau, arddangosiadau, ymweliadau neu weithgareddau ategol eraill.

Dylai myfyrwyr ddeall:

- Nodweddion ystod o weithgareddau celf a dylunio
- Yr ystod o gyfleoedd i ddatblygu sydd ar gael o fewn addysg celf a dylunio neu gyflogaeth celf a dylunio
- Sut i drefnu a chyflwyno'u hunain a'u gwaith i sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol â chynulleidfya benodol.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd UAL Awarding Body.

Gellir cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon â'r rhai ar gyfer Uned 8.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi, a gallai, er enghraifft, gynnwys cofnodion o ymchwil, dadansoddiadau a gwerthusiadau wedi'u cyflwyno mewn llyfrau gwaith, deunydd digidol, llyfrau nodiadau neu ddyddiaduron myfyriol personol.

Gallai hefyd gynnwys cofnodion o waith archwilio a datblygu ffurfiau effeithiol ar gyfathrebu a chyflwyno, mewn llyfrau gwaith, fformat digidol, gwaith datblygu gweledol, delweddau, dyluniadau, cyfryngau, arteffactau, llyfrau nodiadau, dyddiaduron myfyriol personol, adroddiadau, ysgrifennu estynedig.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.



Lefel 3

Diploma Estynedig

**Unedau a
chynnwys
dangosol**

Uned 10

Nodweddion a chyd-destunau mewn celf a dylunio

Lefel: 3

ODA: 150

CAU: 220

Credydau: 22

Nod yr uned: Datblygu hunanymwybyddiaeth gryfach a dealltwriaeth y myfyriwr o'i (g)alluoedd creadigol drwy archwilio nodweddion a chyd-destun gweithgaredd celf a dylunio.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

- Deall y nodweddion a'r cyd-destun ar gyfer gweithgaredd celf a dylunio penodol.
- Gallu defnyddio gwybodaeth am nodweddion a chyd-destun gweithgaredd celf a dylunio.
- Gallu defnyddio gwerthusiad i ategu gweithgaredd celf a dylunio.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- Dadansoddi'r nodweddion a'r cyd-destun ar gyfer gweithgaredd celf a dylunio penodol.
- Defnyddio dadansoddiadau i ddatblygu gweithgaredd ymchwil.
- Dehongli gweithgaredd ymchwil er mwyn datblygu syniadau a chynigion creadigol.
- Defnyddio gwybodaeth am y nodweddion a'r cyd-destun i gynllunio a datblygu datrysiadau creadigol ar gyfer gweithgaredd celf a dylunio penodol.
- Dewis deunyddiau priodol i ddatblygu datrysiadau creadigol ar gyfer gweithgaredd celf a dylunio penodol.
- Cymhwyso sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r nodweddion a'r cyd-destun gweithredu i greu datrysiadau creadigol ar gyfer gweithgaredd celf a dylunio penodol.
- Gwerthuso datrysiadau creadigol yn feirniadol yn erbyn nodweddion a chyd-destun penodol ar gyfer gweithgaredd celf a dylunio penodol.
- Myfyrio'n feirniadol ar ddysgu i lywio datblygiad personol.

Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniad(au), a'r gweithgareddau celf a dylunio penodol y gofynnir i fyfyrwr eu cyflawni.

Mae'r uned hon wedi'i dylunio i ddatblygu dealltwriaeth myfyrwr ymhellach o nodweddion penodol ystod o weithgareddau celf a dylunio a'r cyd-destunau y mae'r gweithgareddau hynny'n bodoli ac yn gweithredu o'u mewn. Bwriedir y bydd myfyrwr yn cyrraedd y ddealltwriaeth hon drwy ystod o weithgareddau ymarferol a damcaniaethol.

Yn bwysicaf oll, mae'r uned yn rhoi cyfle i fyfyrwr archwilio'n feirniadol eu cryfderau a'u galluoedd eu hunain mewn perthynas ag ystod o weithgareddau celf a dylunio, a'u huchelgeisiau a'u nodau tymor hwy, sydd eisoes wedi'u diffinio neu sy'n dod i'r amlwg, naill ai ar gyfer cyflogaeth neu addysg uwch.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon drwy gyfrwng ystod o aseiniadau ymarferol ac ymchwilol sydd wedi'u strwythuro'n briodol a'u dylunio i ehangu hunan-wybodaeth y myfyriwr mewn perthynas â gweithgareddau celf a dylunio penodol. Dylid annog myfyrwr i archwilio'r cysylltiad rhwng eu profiadau eu hunain a gwaith artistiaid a dylunwr eraill.

Gallai ystod o weithgareddau gynnwys darlithoedd, trafodaethau, gweithdai stiwdio ymarferol, arddangosiadau, ymweliadau neu weithgareddau ategol eraill.

Dylai myfyrwr ddeall:

- Nodweddion ystod o weithgareddau celf a dylunio a'r cyd-destunau y maent yn gweithredu o'u mewn
- Eu cryfderau eu hunain mewn perthynas â gofynion ystod o weithgareddau celf a dylunio.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd UAL Awarding Body.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi, a gallai, er enghraifft, gynnwys cofnodion o archwiliad i nodweddion ystod o weithiau celf a dylunio wedi'u cyflwyno mewn delweddau a gwrthrychau, dyluniadau, llyfrau gwaith, deunydd digidol, llyfrau nodiadau, dyddiaduron myfyriol personol, adroddiadau, ysgrifennu estynedig a thraethodau. Gallai hefyd gynnwys cofnodion o archwiliad i'w cryfderau eu hunain wedi'u cyflwyno mewn delweddau a gwrthrychau, dyluniadau, llyfrau gwaith, ffurfiau digidol, llyfrau nodiadau, dyddiaduron myfyriol personol.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, gweithdai, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

Uned 11

Paratoi ar gyfer datblygu ym maes celf a dylunio

Lefel: 3

ODA: 30

CAU: 50

Credydau: 5

Nod yr uned: Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o lwybrau dilyniant a'r prosesau ymgeisio cysylltiedig o fewn celf a dylunio. Paratoi'r ymgeisydd ar gyfer gwneud cais a chychwyn ar Addysg Uwch neu gyflogaeth ym maes celf a dylunio.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Deall llwybrau dilyniant a'r prosesau ymgeisio cysylltiedig.
2. Deall sgiliau a gwybodaeth am gyfathrebu ar gyfer llwybrau dilyniant.
3. Deall y sgiliau a'r wybodaeth am gyflwyno sydd eu hangen i wneud cais i lwybrau dilyniant.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Disgrifio'r llwybrau dilyniant yn feirniadol ynghyd â'r prosesau ymgeisio cysylltiedig o fewn addysg celf a dylunio neu gyflogaeth gysylltiedig.
- 1.2 Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o lwybrau dilyniant a'r prosesau ymgeisio cysylltiedig i ategu'i (d)datblygiad ei hun a chyrraedd nodau penodedig.
- 2.1 Disgrifio'n feirniadol y sgiliau a'r wybodaeth am gyfathrebu sydd eu hangen i wneud cais i lwybrau dilyniant ym maes celf a dylunio.
- 2.2 Defnyddio dealltwriaeth o'r sgiliau a'r wybodaeth am gyfathrebu sydd eu hangen i wneud cais i lwybrau dilyniant ym maes celf a dylunio i ategu'i (d)datblygiad ei hun a chyrraedd nodau penodedig.
- 3.1 Disgrifio'n feirniadol y sgiliau a'r wybodaeth am gyflwyno sydd eu hangen i wneud ceisiadau i lwybrau dilyniant ym maes celf a dylunio.
- 3.2 Defnyddio dealltwriaeth o'r sgiliau a'r wybodaeth am gyflwyno sydd eu hangen i wneud cais i lwybrau dilyniant ym maes celf a dylunio i ategu'i (d)dysgu ei hun a chyrraedd nodau penodedig.

Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniad(au), a'r gweithgareddau celf a dylunio penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni. Gellir cyflwyno'r uned hon yn ystod rhannau o'r flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn.

Mae'r uned hon wedi'i dylunio i ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o'r ystod o lwybrau addysg a chyflogaeth ym maes celf a dylunio a'r prosesau ymgeisio a'r systemau cysylltiedig. Dylid defnyddio'r uned hon i annog myfyrwyr i ddatblygu ystod o sgiliau cyflwyno a chyfathrebu effeithiol sy'n briodol i lwybr dilyniant penodedig ym maes celf a dylunio.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon drwy gyfrwng ystod o weithgareddau ymchwil ac archwilio wedi'u strwythuro'n briodol ac arfau dadansoddi eraill, ochr yn ochr â chyfleoedd i'r myfyriwr archwilio a datblygu ystod o arfau cyfathrebu a chyflwyno sy'n briodol ar gyfer prosesau ymgeisio a chyfweld.

Dylid annog myfyrwyr i archwilio'r cysylltiad rhwng eu profiadau eu hunain a gwaith artistiaid a dylunwyr eraill.

Gallai ystod o weithgareddau gynnwys darlithoedd, trafodaethau, gweithdai, efelychiadau, arddangosiadau, ymweliadau neu weithgareddau ategol eraill.

Dylai myfyrwyr ddeall:

- Nodweddion y gweithgaredd celf a dylunio y maent yn bwriadu ymgymryd ag ef
- Yr ystod o lwybrau dilyniant sydd ar gael o fewn llwybr addysg neu lwybr gyrfa benodedig
- Sut i drefnu a chyflwyno eu hunain a'u gwaith i sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol â chynulleidfa benodol.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd UAL Awarding Body.

Gellir cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon â'r rhai ar gyfer Uned 10.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi, a gallai, er enghraifft, gynnwys cofnodion o ymchwil, dadansoddiadau a gwerthusiadau wedi'u cyflwyno mewn llyfrau gwaith, deunydd digidol, llyfrau nodiadau neu ddyddiaduron myfyriol personol. Gallai hefyd gynnwys cofnodion o waith archwilio a datblygu ffurfiau effeithiol ar gyfathrebu a chyflwyno, wedi'u cyflwyno mewn llyfrau gwaith, fformat digidol, gwaith datblygu gweledol, delweddau, dyluniadau, cyfryngau, arteffactau, llyfrau nodiadau, dyddiaduron myfyriol personol, adroddiadau ac ysgrifennu estynedig. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

Uned 12

Cysylltu â chynulleidfa mewn celf a dylunio

Lefel: 3

ODA: 180

CAU: 270

Credydau: 27

Nod yr uned: Datblygu gwybodaeth y myfyriwr o gynulleidfa oedd unigryw ac unigol gweithgareddau celf a dylunio penodol, a datblygu ymateb y myfyriwr i'r cynulleidfa oedd hynny; a defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ddatblygu datrysiadau creadigol mwy penodol a datblygedig i broblemau celf a dylunio.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

- Deall cynulleidfa gweithgaredd celf a dylunio penodol.
- Gallu cynllunio a gweithredu gweithgaredd celf a dylunio ar gyfer cynulleidfa benodedig.
- Gallu defnyddio gwerthusiadau i ategu gweithgaredd celf a dylunio ar gyfer cynulleidfa benodedig.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- Dadansoddi nodweddion cynulleidfa gweithgaredd celf a dylunio penodol.
- Defnyddio dadansoddiadau i ddatblygu gweithgaredd ymchwil.
- Dehongli gweithgaredd ymchwil i ddatblygu syniadau a chynigion creadigol ar gyfer cynulleidfa celf a dylunio benodol.
- Dangos annibyniaeth wrth wneud penderfyniadau, cynllunio a datblygu datrysiadau creadigol.
- Dewis deunyddiau a phrosesau priodol i ddatblygu datrysiadau creadigol.
- Cymhwyso sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth o gynulleidfa er mwyn creu datrysiadau creadigol ar gyfer gweithgaredd celf a dylunio penodol.
- Gwerthuso datrysiadau creadigol yn feiriadol yn erbyn nodweddion cynulleidfa benodedig.
- Gwerthuso'n feiriadol yr hyn a ddysgwyd, a myfyrio arno i lywio datblygiad personol.

Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniad(au), a'r gweithgareddau celf a dylunio penodol y gofynnir i fyfyrwr eu cyflawni.

Mae'r uned hon wedi'i dylunio i roi cyfle estynedig i'r myfyriwr ddangos ei (d)dealltwriaeth o'r gynulleidfa ar gyfer maes y gweithgaredd celf a dylunio y mae wedi'i ddewis, ynghyd â'i (g)allu i gynniig ymatebion creadigol i broblemau creadigol cymhleth.

Anogir canolfannau i ddarparu ystod o aseiniadau heriol a fydd yn ysgogi creadigrwydd ar yr un pryd ag annog myfyriwr i ystyried eu cynulleidfa a gweld bod datrys problemau creadigol cymhleth yn gofyn cryn fuddsoddiad o ran ymchwil priodol, cynllunio, paratoi, datblygu syniadau a gwireddiad terfynol y datrysiad o fewn amserlen y cytunir arni.

Mae'n debygol y caiff llawer o'r dystiolaeth a gynhyrchir ar gyfer yr uned hon ei defnyddio ym mhortffolios myfyriwr wrth iddynt wneud ceisiadau i sefydliadau addysg uwch.

Erbyn y cam hwn yn y cymhwyster dylai myfyriwr fod yn gyfarwydd â gwaith ystod o artistiaid a dylunwyr, a dylent hefyd fod yn barod i fynegi'r berthynas rhwng y gwaith hwnnw a'u gwaith eu hunain yn hyderus.

Er y dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon drwy gyfrwng ystod o aseiniadau wedi'u strwythuro'n briodol, mae'n bwysig y caiff anghenion myfyriwr ar y cam hwn yn y cymhwyster eu cydnabod ac y cânt gefnogaeth briodol.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyriwr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyriwr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd UAL Awarding Body.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi, a gallai, er enghraifft, gynnwys cofnodion o ddatblygiad a hunaniaeth personol wedi'u cyflwyno mewn: delweddau a gwrthrychau, dyluniadau, amlgyfryngau, gwaith datblygu gweledol, llyfrau gwaith, deunydd digidol, llyfrau nodiadau, dyddiaduron myfyriol personol, adroddiadau ac ysgrifennu estynedig. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyriwr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

Uned 13

Cynnig a gwireddu prosiect mewn celf a dylunio

Lefel: 3

ODA: 180

CAU: 450

Credydau: 45

Nod yr uned: Galluogi'r ymgeisydd i gymryd cyfrifoldeb dros ei (d)dysgu ei hun drwy ddangos ei fod/ei bod wedi llwyddo i gynnig a gwireddu prosiect sy'n integreiddio persbectif cyd-destunol, ymchwil, datrys problemau, cynllunio a threfnu, gwerthuso a myfyrio, a sgiliau ymarferol, technegol a chyflwyno.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

- Gallu symbylu a datblygu cynnig am brosiect celf a dylunio.
- Gallu defnyddio ymchwil, dadansoddi a gwerthuso i ddatblygu datrysiadau ar gyfer prosiect celf a dylunio.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- Defnyddio persbectifau beirniadol a chyd-destunol i symbylu cynnig am brosiect celf a dylunio personol y mae'n ei lywio ei hun.
 - Defnyddio dadansoddiadau a gwerthusiadau i egluro a datblygu cynnig am brosiect celf a dylunio personol y mae'n ei lywio ei hun.
- Defnyddio ymchwil i ategu'r gwaith o ddatblygu prosiect celf a dylunio personol y mae'n ei lywio ei hun.
 - Defnyddio sgiliau dadansoddi a gwerthuso i ddatblygu datrysiadau creadigol i wireddu prosiect celf a dylunio personol y mae'n ei lywio ei hun.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

3. Gallu datrys problemau ymarferol, damcaniaethol a thechnegol mewn prosiect celf a dylunio.

4. Gallu cynllunio, trefnu a chynhyrchu prosiect celf a dylunio.

5. Gallu defnyddio dulliau a sgiliau ymarferol mewn prosiect celf a dylunio.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

3.1 Datrys problemau ymarferol a thechnegol o fewn prosiect celf a dylunio personol y mae'n ei lywio ei hun.

3.2 Datrys problemau damcaniaethol o fewn prosiect celf a dylunio personol y mae'n ei lywio ei hun.

4.1 Dangos y gallu i gynllunio, trefnu a chynhyrchu prosiect celf a dylunio personol y mae'n ei lywio ei hun o fewn amserlen y cytunir arni.

5.1 Dangos defnydd o ddulliau a sgiliau ymarferol wrth wireddu prosiect celf a dylunio personol y mae'n ei lywio ei hun.

Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

6. Gallu defnyddio sgiliau gwerthuso a myfyrio mewn prosiect celf a dylunio.

7. Gallu cyflwyno prosiect celf a dylunio.

Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

6.1 Cadw cofnodion o waith gwerthuso a myfyrio ar ddatblygiad prosiect celf a dylunio personol y mae'n ei lywio ei hun.

6.2 Defnyddio sgiliau gwerthuso a myfyrio i wneud penderfyniadau ar gyfer prosiect celf a dylunio personol y mae'n ei lywio ei hun.

7.1 Archwilio strategaethau ar gyfer cyflwyno prosiect celf a dylunio personol y mae'n ei lywio ei hun.

7.2 Cyflwyno prosiect celf a dylunio personol y mae wedi'i lywio ei hun i gynulleidfa benodedig.

Unedau a
chynnwys
dangosol



Delwedd: Gwaith gan Arianne Wilson
Lefel 3 Celf a Dylunio
Milton Keynes College

Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Mae'n bwysig nodi bod gan Uned 13 (sydd ar Lefel 3) ac Uned 14 (sydd ar Lefel 4) yr un nodau a chanlyniadau dysgu yn union, ond meini prawf asesu gwahanol. Disgwylir y bydd canolfannau'n cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr unedau hyn gyda'i gilydd. Pennir a yw'r myfyriwr wedi cyflawni Lefel 3 (Uned 13) ynteu Lefel 4 (Uned 14) yn ôl y dystiolaeth asesu a gyflwynna.

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster sicrhau bod cynnig yr ymgeisydd ar gyfer Uned 13, ynghyd â'r gwaith o wireddu'r cynnig, yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar yr ymgeisydd i'w (g)alluogi i gyflawni'r meini prawf asesu hyd at Lefel 3. Mae'r uned hon yn ceisio rhoi cyfle i ymgeiswyr gymryd yr awenau o ran eu dysgu eu hunain drwy symbylu, ymchwilio, gweithredu a gwerthuso cynnig am brosiect yn annibynnol a'i wireddu o fewn cyd-destun proffesiynol penodedig. Mae'r graddau y mae disgwyl i fyfyrwyr lywio eu gwaith eu hunain yn gydnabyddiaeth o'r model addysgol sy'n flaenllaw o fewn Addysg Uwch.

Y myfyriwr fydd yn pennu'r pwnc arfaethedig, yr ymchwil dilynol, a'r holl weithgarwch perthnasol. Dim ond trwy gyfrwng tiwtorialau a seminarau arferol y dylid cefnogi'r dysgu.

Dylai myfyrwyr ddeall:

- Ystod o bersbectifau ac ymagweddau beirniadol a chyd-destunol y gellir eu defnyddio wrth ddatblygu cynnig am brosiect
- Yr angen am ymchwil, sy'n berthnasol ac o hyd a lled priodol i ategu'r gwaith o ddatblygu a gwireddu eu prosiect
- Sut i ddadansoddi a gwerthuso tystiolaeth ymchwil i ategu'r gwaith o ddatblygu syniadau
- Sut i integreiddio dealltwriaeth ymarferol, ddamcaniaethol a thechnegol i wireddu eu prosiect
- Sut i gadw a defnyddio cofnodion o waith dadansoddi a gwerthuso beirniadol i ategu'r broses benderfynu
- Sut i fynegi dadansoddiad a gwerthusiad, ar ffurf briodol, o'r prosesau gwaith a arweiniodd at wireddu'u cynnig am brosiect
- Sut i ddefnyddio ffurfiau a thechnegau priodol i gyflwyno'u hunain a'u gwaith.

Mae'r uned hon yn gofyn i fyfyrwyr gynhyrchu cynnig prosiect ysgrifenedig tua 500 o eiriau a ddylai gynnwys y canlynol:

- Adolygiad o'r cynnydd a'r hyn a gyflawnwyd hyd yma
- Cysyniad y prosiect
- Gwerthusiad.

Gan y bydd angen i fyfyrwr gydbwyso uchelgais, amser ac adnoddau wrth wireddu'r prosiect, rhaid cynnwys cynllun gweithredu wedi'i amserlennu. Mae angen llyfryddiaeth hefyd, yn manylu'r holl ffynonellau ymchwil. Rhoddir gwybodaeth bellach yn nogfen ategol UAL Awarding Body *Project Proposal: Guidance for Candidates* (tudalennau 46–47).

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol, a'i safoni'n fewnol ac yn allanol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr yn erbyn y canlyniadau dysgu a'r meini prawf asesu a graddio.

Gellir cael gradd Llwyddo, Teilyngdod neu Anrhydedd yn yr uned hon, ac mae'r uned yn pennu'r radd derfynol a roddir ar gyfer y Diploma Estynedig. Bydd myfyriwr sy'n cyflwyno tystiolaeth sy'n methu â bodloni'r meini prawf asesu yn cael ei gyfeirio/ ei chyfeirio.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi, a gallai, er enghraifft, gynnwys cofnodion o waith cynllunio, ymchwil a datblygu syniadau wedi'u cyflwyno mewn llyfrau gwaith, fformat digidol, llyfrau nodiadau neu ddyddiaduron myfyriol personol. Gallant hefyd gynnwys cofnodion o waith dadansoddi a myfyrio wedi'u cyflwyno mewn llyfrau gwaith, fformat digidol, llyfrau nodiadau neu ddyddiaduron myfyriol personol. Gellid cyflwyno cofnodion o'r gwaith o ddatblygu a gwireddu'r prosiect mewn llyfrau gwaith, fformat digidol, gwaith datblygu gweledol, delweddau, dyluniadau, cyfryngau, arteffactau, llyfrau nodiadau, dyddiaduron myfyriol personol. Gellid cyflwyno cofnodion o gyflwyniadau a chyfathrebu mewn llyfrau gwaith, fformat digidol, llyfrau nodiadau, neu ddyddiaduron myfyriol personol.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu a graddio'r uned.

Uned 14

Cynnig a gwireddu prosiect mewn celf a dylunio

Lefel: 4

ODA: 180

CAU: 450

Credydau: 45

